Cefnogi Pobl
cefnogi annibyniaeth

# Taflen Newyddion

Haf 2009

# Croeso

**Croeso i wythfed rhifyn cylchlythyr 'Cefnogi Pobl' Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, a ysgrifennwyd ar gyfer pobl sy'n gweithio ym maes cefnogi oedolion clwyfadwy.**

Os oes unrhyw straeon neu erthyglau diddorol yr hoffech i ni eu cynnwys, rhowch wybod i ni drwy ffonio'r rhifau cyswllt ar ddiwedd y cylchlythyr.

## CYNNWYS


| | |
|---|---|
| Croeso | *Tudalen* 1 |
| Beth mae CP yn ei wneud? | 1 |
| Newyddion y Tîm | 2 |
| Newyddion CP | 2 |
| Y Diweddaraf am Adolygu a Monitro | 2 |
| Y Diweddaraf am Gomisiynu a Datblygu | 3 |


## Beth mae Cefnogi Pobl Caerffili yn ei wneud?

Mae Cefnogi Pobl Caerffili yn cyllido gwasanaethau cymorth, sydd werth dros £6miliwn, i 40 o asiantaethau ac yn monitro ansawdd gwasanaethau i grwpiau cleientiaid archolledig. Mae'r canlynol yn arwydd cryno o'r gwasanaethau rydym yn eu cefnogi a'r nifer o dderbynyddion o fewn Caerffili

Rydym yn cyfrannu tuag at agendâu strategol ehangach

- Lles economaidd
- Bod yn iachus
- Mwynhau a chyflawni
- Cadw'n ddiogel

### Pobl Ifanc (44 o bobl)

Mae grantiau cefnogi pobl yn cyllido llety â chymorth, prosiect SAFE ar gyfer pobl ifanc 16/17 mlwydd oed a chymorth fel y bo'r angen. Rydym nawr hefyd yn cyllido'r gwasanaeth cyfryngu a'r cydlynydd symud ymlaen ar gyfer pobl ifanc.

### Anableddau Dysgu (172 o bobl)

Mae CP Caerffili ar hyn o bryd yn cyllido byw yn annibynnol, lleoliadau i oedolion, gwasanaethau cymorth fel y bo'r angen a gwasanaeth garddio bach.

### Iechyd y Meddwl (67 o bobl)

Mae CP Caerffili ar hyn o bryd yn cyllido cymorth fel y bo'r angen a llety â chymorth cyfyngedig.

### Camddefnyddio Sylweddau (40 o bobl)

Comisiynwyd prosiect cymorth fel y bo'r angen trwy Prosiect Ffynnon yn 2008 a bydd Park View yn cychwyn ym mis Ionawr 2010.

### Pobl Hŷn (4377 o bobl)

Mae CP Caerffili ar hyn o bryd yn cyllido cynlluniau tai amnodd Awdurdodau Lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, tele-ofal a gwasanaeth cymorth fel y bo'r angen bach.

### Camdriniaeth yn y Cartref (25 o bobl a theuluoedd)

Mae CP Caerffili ar hyn o bryd yn cyllido pedwar lloches camdriniaeth yn y cartref a gwasanaeth cymorth fel y bo'r angen.

### Digartrefedd (128 o bobl)

Ar hyn o bryd mae cefnogi pobl yn cyllido hosteli pobl digartref a gwasanaethau cymorth fel y bo'r angen amrywiol ar gyfer pobl digartref neu a all ddod yn ddigartref.

### Anableddau corfforol/nam ar y synhwyrau (573 o bobl)

Yn bresennol mae CP Caerffili'n cyllido gwasanaeth glanhau'r cartref ar gyfer 500 o bobl anabl, cynllun clirio gerddi a chynllun cymorth fel y bo'r angen ar gyfer pobl â nam ar y golwg.

### Teuluoedd archolledig (68 o deuluoedd)

Mae CP Caerffili yn cyllido'r sefydliadau lleol sy'n gyfeillgar i deuluoedd lleol; Cychwyn Cartref Cwm Rhymni, Cychwyn Cartref Dwyrain Caerffili ac O'r Cychwyn Cyntaf.

# Cyflwyniad Trothwy

**Rhoddodd Trothwy Cyf. gyfres o gyflwyniadau i staff o'r adrannau tai, digartrefedd, tai dros dro, rhenti a chefnogi pobl er mwyn rhoi amlinelliad o'r gwasanaethau maent yn eu darparu o fewn Caerffili.**

- **Cynllun Bond**
- **Cymorth fel y bo'r angen cyffredinol**
- **Cynllun camddefnyddio sylweddau Ffynnon**
- **Cynllun Park View**

**Amlygodd Trothwy problemau gydag atgyfeiriadau, asesiadau, darpariaeth gwasanaeth a datblygiad canlyniadau, gordanysgrifiadau pob gwasanaeth a chynnal rhestri aros.**

**Bu trafodaeth ar sut y gallem dargedu'r adnoddau'n well er mwyn sicrhau bod y bobl sydd â'r angen fwyaf yn cael eu blaenoriaethu. Cymeradwywyd yn gyffredinol defnyddio proses atgyfeirio canolog sy'n cael ei reoli gan gefnogi pobl.**

## Newyddion y Tîm

Fe ddefnyddir Mae'r rhewi diweddar ar lenwi swyddi o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili'n golygu bod swyddi'r swyddog prosiect cefnogi pobl a'r cynorthwyydd gweinyddol wedi bod yn wag am y tri mis diwethaf.

Rydym yn falch i gyhoeddi y bydd Tiffeny Davies yn llenwi swydd y Swyddog Prosiect o fis Gorffennaf 2009.

# Newyddion Cefnogi Pobl

## Lansio'r Strategaeth Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi lansio'r Strategaeth Cefnogi Pobl. Mae Ymateb Caerffili ar hyn o bryd ar y wefan cefnogi pobl.
www.caerffili.gov.uk/cefnogipobl

Gellir gweld copi o'r strategaeth ar
new.wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/housing/supportingpeople/?skip=1&lang=cy

Trefnodd timau cefnogi pobl Gwent ddigwyddiad ymgynghorol yng Nghwmbrân ar y 30ain o Ebrill oedd yn cynnwys cyflwyniad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a 3 gweithdy a ganolbwyntiodd ar faterion sy'n ymwneud â

- Gweithdy Grant Refeniw Cefnogi Pobl
- Gweithdy Person Hŷn/Landlord Cymdeithasol Cofrestredig
- Gweithdy Iechyd y Meddwl/Gofal Cymunedol

Mae manylion llawn yr adborth o'r gweithdy ar gael ar wefan Cefnogi Pobl Caerffili, sef
www.caerffili.gov.uk/cefnogipobl

**Mae budd-ddeiliad yn y symudiad tai â chymorth yn cyfrannu tuag at sut bydd strategaeth tai â chymorth LICC yn datblygu.**



# Y Diweddaraf am Adolygu a Monitro

Mae'r canlynol yn feysydd sy'n cael eu hystyried gan LICC, Cymorth a CP mewn perthynas â datblygu dangosyddion canlyniadau. Mae gwaith yn cael ei wneud ar gynhyrchu cyfres o ddangosyddion canlyniadau 'craidd' sy'n berthnasol â'r meysydd hyn.

Mae gan y 'Grŵp Darparu Canlyniadau CP' y dasg o ddatblygu canlyniadau defnyddwyr gwasanaeth. Yn dilyn ymlaen o gyfarfod y grŵp, y rhestr isod oedd y man cychwyn ar gyfer y canlyniadau rydym am eu treialu o bosib;

Mae defnyddwyr y gwasanaeth:

- Yn ddiogel / yn fwy diogel
- Mewn rheolaeth / mewn rheolaeth gwell o'u harian
- yn y swydd / addysg / hyfforddiant sy'n gywir ar eu cyfer
- Yn iachus / iachach
- Mewn rheolaeth / mewn mwy o reolaeth o'u defnydd alcohol a chyffuriau
- Yn dod yn fwy annibynnol
- Mewn llety sy'n addas ar eu cyfer ar y pryd
- Yn llai tebygol o droseddu neu gymryd rhan mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Yn cael y mwyaf / yn cael mwy allan o weithgareddau hamdden/cymunedol
- Yn fwy hyderus / yn dangos mwy o hunan-barch

Mae yna drafodaeth ar fynd rhwng LICC, Cefnogi Pobl a Chymorth ar union natur y dangosyddion craidd sydd i gael eu cyflwyno.

Efallai bydd rhai dangosyddion canlyniadau ychwanegol a fydd yn benodol i grwpiau cleientiaid. Bwriad tîm Cefnogi Pobl Caerffili yw gweithio gyda darparwyr sy'n barod i gychwyn y dangosyddion o fis Hydref 2009.

Byddwn yna'n ymgynghori â'r darparwyr i gyd ar ddyddiad ar gyfer gweithredu canlyniadau'r broses monitro ar gyfer ein cytundebau presennol, gan gyflwyno llety dros dro a'r symud ymlaen i lety cynaliadwy. Bydd ymchwil tebyg yn cael ei ddefnyddio i asesu sut gellir cymryd y gwasanaethau presennol ymlaen a gwella'r holl gomisiynu yn y dyfodol.

# Cynllun Gweithredu Cefnogi Pobl 2010-2011

Mae Caerffili ar fin cynhyrchu ei seithfed cynllun gweithredol cefnogi pobl. Gellir gweld y cynlluniau blaenorol i gyd ar ein gwefan:
www.caerffili.gov.uk/cefnogipobl

Bydd y seithfed cynllun mewn fformat llyfryn ac mi fydd yn amlygu'r penderfyniadau comisiynu yn y dyfodol y bydd angen eu cymryd wrth ddatblygu'r rhaglen cefnogi pobl yng Nghaerffili.

Rydym yn gwybod y bydd angen i ni ddatblygu gwasanaethau newydd ac ailfodelu rhai sy'n bodoli eisoes er mwyn cwrdd ag anghenion pobl yn well.

Rhaid i ni edrych ar sut y gallwn gyfuno ein cyllido â phartneriaid eraill a gweithio ar y cyd i gomisiynu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar anghenion y defnyddiwr gwasanaeth.

Rhaid i ni barhau i hyrwyddo'r agenda atal a dangos sut bydd y gwasanaethau rydym yn eu comisiynu yn arbed arian i'r gwasanaethau statudol.

Cyfeiriad E-bost: cefnogipobl@caerffili.gov.uk

Gwefan: www.caerffili.gov.uk/cefnogipobl

Ffôn: 01443 864591

# Y Diweddaraf am Gomisiynu

Mae'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth CP wedi cael ei gwblhau, mae'r cytundeb hwn rhwng y tîm CP a Llamau; sefydliad sy'n darparu nifer o wasanaethau cymorth i bobl ifanc a phobl archolledig sydd 16+ ym mwrdeistref Caerffili. Bydd y Cytundeb Lefel Gwasanaeth yn ffurfioli cytundebau rhwng y tîm CP a Llamau mewn perthynas â rhannu gwybodaeth a chynnal a chadw ansawdd gwasanaethau ar gyfer y rhai hynny sy'n cael eu cyllido'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Yn ogystal â hyn, mae Cytundeb Partneriaethau wedi cael ei greu ar gyfer gwasanaethau Llamau sydd wedi eu hanelu at gefnogi pobl ifanc sydd yn wynebu digartrefedd. Mae gwasanaethau hyn yn cael eu cyllido ar hyn o bryd gan CP ac mi fyddant yn cynorthwyo'r tîm CP gyda rhannu gwybodaeth a gwella'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu i bobl ifanc archolledig ym mwrdeistref Caerffili.

Bydd Cytundebau Lefel Gwasanaeth ar gyfer pob darparwr cymorth arall sy'n derbyn cyllid gan LICC yn cael eu cynhyrchu, gan gynnwys Trothwy Cyf., sefydliad sy'n darparu cymorth cyffredinol ar draws y fwrdeistref gyfan i atal digartrefedd, a Gofal Cymru, sy'n darparu gwasanaethau cymorth i bobl â phroblemau iechyd y meddwl.

Hyd yma mae'r manylebion ar gyfer y Gwasanaethau Camdriniaeth yn y Cartref wedi cael eu cwblhau ac maent yn aros ar gyfer derbyn y fersiwn terfynol.

Yn ysbryd cydgomisiynu, mae cyfarfodydd gyda'n cydweithwyr yn yr ALl yn cael eu trefnu i drafod manylebion gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau nam ar y synhwyrau ac anableddau dysgu.

Mae'r broses ymgynghori ar gyfer Gwasanaethau Anableddau Dysgu yn y fwrdeistref wedi cychwyn yn barod. Ar y 4ydd o Fehefin 2009 mynychodd y Swyddog Comisiynu Gyfarfod Sirol Pobl yn Gyntaf Caerffili. Roedd y Swyddog yn falch iawn i gael y cyfle i siarad o flaen ystod eang o bobl. Derbyniodd adborth defnyddiol ynghylch pa fath o wasanaethau mae pobl eisiau, pryd maent am gael cymorth a pha fath o lety y byddent yn hoffi byw ynddo. Bydd cyfarfod ychwanegol yn cael ei drefnu er mwyn siarad â phobl nad oeddent yn y cyfarfod neu a fyddai'n hoffi cael adborth mewn grwpiau llai, felly os oes gennych ddiddordeb mewn siapio cyfeiriad gwasanaethau ar gyfer pobl ag anableddau dysgu yn y dyfodol, cysylltwch â ni!

Canlyniad y Cyfarfod Sirol oedd dechrau'r broses o greu DVD sydd wedi ei anelu at bobl ag Anableddau Dysgu, gan eu cynorthwyo i gael mynediad i dai ym Mwrdeistref Caerffili. Bydd cyfarfodydd pellach yn cael eu trefnu ac os oes gan unrhyw un diddordeb mewn cymryd rhan, gallent wneud hynny drwy gysylltu â Cyril Luke ym Mhobl yn Gyntaf Caerffili ar 01443 834444.

Er mwyn cynnig y gwasanaeth tai gorau posibl i'r rhai hynny sy'n osgoi camdriniaeth yn y cartref neu sydd angen gwasanaeth cymorth sy'n ymwneud â thai i geisio helpu cadw eu cartref, mae ymchwil yn cael ei wneud mewn i siwrnai 12 o unigolion. Mae hyn yn golygu byddwn yn rhoi ein hunain yn 'esgidiau' pobl sy'n cael mynediad i wasanaethau er mwyn deall sut gallwn wella a datblygu'r gwasanaethau presennol. Bydd yr ymchwil yn cynnwys holl gamau'r broses, o'r cyflwyno unigol i'r llety dros dro, a hefyd y symud ymlaen i lety cynaliadwy. Bydd canfyddiadau ymchwil tebyg yn cael eu defnyddio i asesu sut gall y gwasanaethau presennol gael eu cymryd ymlaen a gwella'r holl gomisiynu yn y dyfodol.

## Ffoniwch y tîm ar 01443 864591

**E-bost:** **cefnogipobl@caerffili.gov.uk** **Gwe:** **www.caerffili.gov.uk/cefnogipobl**

## Dyddiadau Pwysig...

*Fforwm Pobl Ddigartref Caerffili*
*8fed Gorffennaf, 28aim Hydref, 13eg Ionawr 2010*
*Ymgynghoriad Cynllun Gweithredu Cefnogi Pobl - Wythnos gyntaf mis Medi*

CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI